Nos Fercher, 14 Ionawr 2026 – 7.30yh
yn Rhithwir

# cofnodion drafft

Cofnodion cyfarfod eithriadol a gynhaliwyd **nos Fercher 14 Ionawr 2026** am 7.30, yn Rhithwir / ar-lein.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
2. Datganiad o Fuddiant
3. Praesept
4. Er Gwybodaeth
5. Materion Brys

**Presennol**:
Bethan Corrigan
Dafydd Gwyndaf
Daniel Tomos (Clerc)
Eifion Davies
Eryl Owain (Cadeirydd)
Owen Davis

**Ymddiheuriadau**:
Claire Roberts
Dylan Davies (Is Gadeirydd)
Geraint Thomas
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (Cynghorydd Sir)

## Datganiad o fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

**Praesept:** Adroddodd y Clerc fod gwall wedi'i ganfod yn un o'r ffigurau a ddefnyddiwyd i gyfrifo praesept yn y cyfarfod blaenorol, a oedd yn golygu bod angen galw'r cyfarfod eithriadol hwn. Ar ôl ystyried y ffigurau cywir, penderfynodd yr Aelodau'n unfrydol osod praesept ar £20,000.

## Er Gwybodaeth

**Cwyn i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg ynghylch Archwilio Cymru:** Derbyniodd a nododd y Cyngor Hysbysiad Penderfyniad Comisiynydd y Gymraeg (CS1329), a ganfu fod Archwilio Cymru wedi methu â chydymffurfio â Safonau 1 a 2 drwy ohebu dro ar ôl tro yn Saesneg er gwaethaf dewis datganedig y Cyngor i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Cadarnhaodd y Comisiynydd gŵyn y Cyngor yn llawn ac mae wedi ei gwneud yn ofynnol i Archwilio Cymru gymryd camau cywirol, gan gynnwys atgoffa staff, hyfforddiant, a gweithdrefnau gwell ar gyfer cofnodi a dilyn dewis iaith.

## Materion Brys

Dim un

**Cyfarfod nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf y cyngor nos Iau 12 Mawrth 2026, 7.30 yn festri Capel Salem.

DRAFT